Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

27 Ionawr 2017

Annwyl Alun,

Bil Cymru: Cymal 69 – Darpariaeth ganlyniadol

Diolch i chi am y copïau o'ch llythyrau ar 13 Rhagfyr 2016 at y Llywydd a'r Prif Weinidog.

Rwy'n awyddus i'r Pwyllgor hwn hyrwyddo dealltwriaeth o gyfansoddiad Cymru sy'n codi o ganlyniad i wahanol Ddeddfau Seneddol y DU yn ymwneud â datganoli yng Nghymru.

Ar y sail hon, mae pwynt yn eich llythyr yr ydym am gael eglurder yn ei gylch.

Mae cymal 69 o Fil Cymru (cymal 53 gynt ac yna cymal 60) yn caniatáu i Weinidogion y DU i ddiwygio deddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol, mewn rhai amgylchiadau, heb gydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Ym mhennod 11 o'n hadroddiad ar y Bil, rydym yn mynegi pryder am y ddarpariaeth hon.

Mae eich llythyrau at y Llywydd a'r Prif Weinidog yn dweud:

“The power to amend Assembly legislation is mirrored by similar powers in a number of Acts of the Assembly that enable Welsh Ministers to modify parliamentary legislation in consequence of Assembly Act provisions without recourse to Parliament.”

Ond nid yw'n briodol cymharu pwerau Gweinidogion Cymru i addasu deddfwriaeth Senedd y DU â phwerau Gweinidogion y DU i addasu deddfwriaeth y Cynulliad. Mae cyd-destunau'r pwerau hynny yn wahanol iawn.

Y rheswm y gall Gweinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth Senedd y DU yw bod y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU ill dau wedi cydsynio’n benodol, ar ôl i’r Cynulliad

Cenedlaethol gydsynio yn Neddf alluogi berthnasol y Cynulliad ac ar ôl i Senedd y DU gydsynio drwy basio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (a Deddfau datganoli dilynol) yn y lle cyntaf.

Mewn cyferbyniad â hynny, rhoddwyd i Weinidogion y DU bŵer i addasu deddfwriaeth y Cynulliad heb i'r Cynulliad Cenedlaethol gael cyfle i gydsynio yn benodol i'r pŵer hwnnw. Derbyniodd Cynulliad Cenedlaethol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Cymru, ond cydsyniad cyffredinol i Fil Cymru yn gyffredinol oedd hynny. Fel arfer, bydd gan ddeddfwrfeydd gyfle i gytuno ar ddeddfwriaeth fesul adran, ond nid oedd y cyfle i wneud hynny ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol yn achos cymal 69 o Fil Cymru.

Mae'n bosibl y bydd rhai'n gweld y newidiadau y gellir eu gwneud o dan gymal 69 yn rhai dibwys, ond mae'n rhaid iddynt fod â phwrpas cyfreithiol, a rhaid eu bod yn newid y gyfraith. Rydym o'r farn bod y dull a fabwysiadwyd yng nghymal 69 yn gyfansoddiadol gyfeiliornus a'i fod yn mynd yn groes i'r egwyddor a nodir yng nghymal 2.

Yn gysylltiedig â chymal 2 a'r materion uchod, credwn fod lle i Ganllaw ar Ddatganoli 9 wedi ei ddiweddaru roi eglurhad, yn enwedig ynghylch unrhyw weithdrefn cydsyniad y disgwylir iddi fod ar waith pan fo Gweinidogion y DU yn bwriadu addasu deddfwriaeth y Cynulliad, boed hynny o dan gymal 69 pŵer neu drwy fodd arall. Byddem yn ddiolchgar o gael ein hysbysu ynghylch hynt y gwaith i ddiweddaru Canllaw ar Ddatganoli 9.

Anfonir copïau o'r llythyr hwn at y Llywydd ac at y Prif Weinidog.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.